Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Caban Aur

## Dyddiad yr arolygiad:  April 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi:  27/06/2018**

## Cyd-destun

Mae Caban Aur yn ysgol annibynnol fechan ym mherchenogaeth Afon Goch Children's Homes Limited. Mae wedi'i lleoli o fewn ei thir ei hun, mewn ardal wledig ar Ynys Môn, wedi'i hamgylchynu gan warchodfa natur. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sy'n preswylio yn un o ddau gartref plant y cwmni. Ar hyn o bryd, mae tri o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae pob un o'r disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Mae llety'r ysgol yn cynnwys ystafell ddosbarth fechan ac ystafell waith arall yng nghartref plant Caban Aur. Mae'r rhan fwyaf o'r gwersi ar ffurf addysgu un i un yn yr ystafell ddosbarth. Hefyd, mae'r ysgol yn defnyddio ardaloedd eraill yn y cartref, fel y gegin a'r lolfa, i addysgu agweddau ar y cwricwlwm.

Mae pennaeth dros dro wedi bod yn ei swydd er Chwefror 2018. Caiff ei chefnogi gan dri athro rhan-amser ac un hyfforddwr addysg awyr agored rhan-amser.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r holl argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau dysgu ysgogol i gefnogi cynnydd disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella'u medrau ym meysydd llythrennedd, rhifedd a'r celfyddydau creadigol, ac i ddatblygu'u dealltwriaeth o emosiynau ac ymddygiad priodol.

Mae staff yn gwybod anghenion y disgyblion yn dda ac yn cynnig ethos hynod gadarnhaol, gyda ffocws clir ar ddatblygu lles emosiynol disgyblion.

Mae staff addysg, gofal a therapi yn cydweithio'n effeithiol i alluogi disgyblion i ddatblygu sylfeini sicr ar gyfer eu dysgu yn y dyfodol.

Mae sesiynau addysg awyr agored wythnosol yn cynnig gweithgareddau diddorol a chymhellol i'r holl ddisgyblion i wella'u medrau a'u hyder.

### Meysydd i'w datblygu

Mae'r perchennog wedi dechrau'r broses o recriwtio pennaeth newydd. Fodd bynnag, nid oes amserlen glir ar gyfer cwblhau'r broses hon.

Nid oes gan ddisgyblion ddigon o gyfleoedd nac adnoddau i ddatblygu'u cymhwysedd digidol.

Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ddatblygu'u medrau bywyd a'u dealltwriaeth o fyd gwaith drwy brofiadau gwaith perthnasol yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn cynnig sesiynau addysg awyr agored wythnosol diddorol a chymhellol.  Fodd bynnag, nid yw cynllunio ac arfarnu'r sesiynau hyn wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

**Argymhellion**

A1 Sicrhau arweinyddiaeth briodol a chyson i'r ysgol

A2 Gnweud yn swir bod y disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd yn y cwricwlwm i ddatblygu'u cymhwysedd digidol

A3 Cynyddu cyfleoedd i ddatblygu medrau bywyd disgyblion a'u dealltwriaeth o fyd gwaith

A4 Gwella cynllunio ac arfarnu addysg awyr agored a sicrhau bod disgyblion yn gallu ennill achrediad perthnasol ar gyfer eu cyflawniadau

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn systematig drwy gynllun gweithredu strwythuredig, sy'n nodi cyfrifoldebau ac amserlenni'n glir.

Mae cyswllt cyson rhwng staff gofal, staff therapïau a staff yr ysgol, trwy gydweithio a sesiynau briffio dyddiol, wedi gwella cyfathrebu a gweithdrefnau gweithio ar y cyd.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod strategaeth glir ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion sy'n cael ei gweithredu'n gyson ar draws y sefydliad**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi diwygio'i pholisïau a'i gweithdrefnau yn briodol. Mae rheolau newydd yr ysgol, a ddatblygwyd ar y cyd â'r disgyblion, yn glir. Mae disgyblion a staff yn deall y rheolau yn dda.

Fel arfer, mae'r system bwyntiau, gyda'i gwobrau a'i chosbau yn gysylltiedig ag ymddygiad da, yn cymell disgyblion yn effeithiol. Hefyd, mae disgyblion yn cael gwobrau ariannol am ymddygiadau penodol, fel gwisgo gwisg yr ysgol. Mae'r gwobrau ariannol hyn yn gymhellol iawn, oherwydd gall disgyblion gynilo tuag at eu lwfans dillad personol, er enghraifft.

Mae gan yr holl ddisgyblion gynlluniau ymddygiad unigol (CYUau) wedi'u strwythuro'n ofalus, sy'n bodloni'u hanghenion yn dda. Mae athrawon yn datblygu CYUau gan ddefnyddio gwybodaeth ddefnyddiol gan y staff gofal a'r staff therapïau. O ganlyniad, mae'r holl staff yn ymwybodol o'r targedau cytunedig ar gyfer pob disgybl, a'r ffordd orau o reoli ymddygiad disgyblion.

**Argymhelliad 3: Manteisio i'r eithaf ar yr amgylchedd dysgu i ddarparu profiadau dysgu amrywiol a chymhellol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, caiff disgyblion wersi Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, celf, addysg grefyddol a Chymraeg. Megis dechrau cynllunio ac arfarnu'i rhaglen addysg awyr agored yn ffurfiol y mae'r ysgol. Mae disgyblion yn cwblhau gweithgareddau paratoadol a myfyriol buddiol ar gyfer hyn.

Mae staff wedi cydnabod bod angen datblygu darpariaeth yr ysgol ar gyfer medrau bywyd i baratoi disgyblion yn fwy priodol ar gyfer bywyd fel oedolyn.

Caiff dwy ystafell yn yr adeilad eu defnyddio'n dda fel ardaloedd ar gyfer addysgu. Mae'r rhain yn olau ac yn ddeniadol, ac yn cynnig amgylchedd dysgu ysgogol i ddisgyblion.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau staff addysgu a staff gofal yn ystod y dydd yn cael eu deall yn glir**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau effeithiol i fodloni'r argymhelliad hwn. Er enghraifft, treuliodd aelod o staff gofal hanner tymor yn gweithio gyda'r tîm addysg a threuliodd athro newydd ei benodi amser gyda'r staff gofal yn ystod y cyfnod sefydlu. O ganlyniad, mae staff yn deall eu rolau amrywiol ac yn eu cefnogi ei gilydd yn dda.

Mae'r ysgol wedi penodi athro addysg arbennig cymwysedig a phrofiadol i fod yn eiriolwr a mentor dysgu. Trwy sesiynau rheolaidd yn ystod y diwrnod ysgol, mae'r mentor yn gweithio gyda disgyblion unigol i gefnogi anawsterau dysgu penodol. Yn ogystal, mae hi'n helpu staff i ddeall arddulliau dysgu unigol disgyblion. Mae presenoldeb y mentor mewn cyfarfodydd tîm yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddull cyson yr ysgol o gefnogi cynnydd disgyblion.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Caban Aur |
| **Rhif yr ysgol** | 6606028 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 23/04/2018 |
| **Perchennog** | Afon Goch Children's Homes Limited |
| **Staff** | 1 pennaeth dros dro amser llawn, 3 athro rhan-amser, 1 hyfforddwr addysg awyr agored rhan-amser |
| **Nifer y disgyblion** | 3 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/02/2017 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 02/05/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 06/02/2017 |